

Cipolwg: Ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau

Strategaeth gweithlu
therapi galwedigaethol
2024-2035

Ein gweledigaeth yw gweithlu
therapi galwedigaethol estynedig
sydd mewn sefyllfa i gael yr
effaith fwyaf posibl wrth wella
iechyd ac ansawdd bywyd pobl.



Erbyn 2035 bydd gennym weithlu therapi galwedigaethol sydd:

- **hyderus a medrus wrth hyrwyddo cynhwysiant** ac eiriol dros gyfiawnder galwedigaethol, gan ganolbwyntio ar hawl pob person i gael dewis a chyfle i gymryd rhan mewn ystod amrywiol o weithgareddau a rolau
- **seiliedig yn bennaf o fewn cymunedau** gan weithio'n agos gyda phoblogaethau lleol i ddiwallu eu hanghenion iechyd a gofal a gwneud gwasanaethau yn hygyrch i bawb
- **mewn sefyllfa i ganolbwyntio ar atal ac ymyriadau cynnar**, gan leihau'r angen am ymyriadau mewn argyfwng a dibyniaeth ar wasanaethau gofal
- **rhoi lle blaenllaw i alwedigaethau yn eu hymarfer**, grymuso pobl i wneud y galwedigaethau y maent yn eu gwerthfawrogi, rheoli eu hanghenion iechyd a gofal a chyfrannu at gymdeithas.



Byddwn yn cyflawni hyn drwy ein pedair blaenoriaeth gweithlu:

Optimeiddio therapi galwedigaethol



Byddwn yn:

- cefnogi ymarferwyr therapi galwedigaethol i wneud newidiadau, gan ddefnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth i arwain a chyd-ddylunio cynhyrchion, ymyriadau a gwasanaethau arloesol sy'n gwella bywydau a lles pobl
- hyrwyddo modelau darparu gwasanaeth arloesol sy'n gwella mynediad at therapi galwedigaethol ac yn sicrhau tegwch iechyd i bawb.

Dangos gwerth ac effaith



Byddwn yn:

- adeiladu ein tystiolaeth byd go iawn a thystiolaeth ymchwil ar gyfer therapi galwedigaethol a chyfiawnhau buddsoddiad yn y gweithlu therapi galwedigaethol trwy feintio eu heffaith
- gweithio gyda'n harweinwyr i gyflwyno'r achos dros sut a ble i ddefnyddio ein harbenigedd i ychwanegu'r gwerth mwyaf i bobl a'u teuluoedd, y system iechyd a gofal ehangach ac i osgoi prinder critigol o fewn y gweithlu therapi galwedigaethol.

Cadw a datblygu gyrfa



Byddwn yn:

- cefnogi a hyrwyddo datblygiad yr holl ymarferwyr therapi galwedigaethol, yn enwedig y rhai o gymunedau ymylol a heb gynrychiolaeth ddigonol yn hanesyddol, i fod lle y dymunant fod, ar bob cam o'u gyrfa
- meithrin capasiti, hyder a gallu ein proffesiwn i ymgorffori arweinyddiaeth, dysgu, ymchwil ac arloesi mewn ymarfer.

Cynllunio gweithlu effeithiol



Byddwn yn grymuso'r gweithlu therapi galwedigaethol i:

- cyfrannu at y data a'r wybodaeth cynllunio gweithlu sydd ar gael iddynt, eu cyrchu a'u defnyddio
- defnyddio'r data a'r wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus am eu safle o fewn y system iechyd a gofal.

Sut y byddwn yn cyflawni'r Strategaeth Gweithlu

Rydym wedi cynllunio'r strategaeth hon i baratoi'r gweithlu therapi galwedigaethol i ddiwallu anghenion demograffig a gwasanaeth yn y dyfodol erbyn 2035. Mae gennym gynllun gweithredu cyffredinol a byddwn yn cyhoeddi cynlluniau gweithredu cenedl-benodol ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau i wella mynediad at therapi galwedigaethol ar draws tri maes blaenoriaeth – gofal sylfaenol, adsefydlu cymunedol ar ôl arhosiad yn yr ysbyty, ac mewn ysgolion.

Byddwn yn cydweithio â'n haelodau, partneriaid a rhanddeiliaid allanol i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. A byddwn yn adolygu'r strategaeth a'i chyflawniad ar ôl tair blynedd, gan ddiweddarau'r cynlluniau gweithredu i adlewyrchu'r amgylchedd gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a byd-eang presennol.

Darllenwch y strategaeth lawn a'r cynllun gweithredu yn rcot.co.uk/workforce-strategy

